Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Penodi Aelod Annibynnol - Cymuned

Dyddiad cau: 14 Chwefror 2020

Cynnwys **Tudalen**

Gwneud cais **3**

Atodiad A : Rôl Cadeirydd / Aelod **6**

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr **11**

Atodiad C : Y broses ddethol **13**

Gwneud cais

Diolch ichi am fynegi diddordeb ym mhenodiad Aelod Annibynnol (Cymuned) o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd gofyn i'r Aelod Annibynnol newydd gymryd rhan fel aelod llawn o'r Bwrdd sy'n gosod y strategaeth ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal, bydd disgwyl i chi herio'n adeiladol, cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau gan y Bwrdd a chraffu ar berfformiad y tîm gweithredol o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Atodiad sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl yr Aelod Annibynnol a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau y Bwrdd Iechyd a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-e0700634855e/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag berthnasol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif cofrestredig.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw eich cyfle chi i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Mae hefyd yn gofyn ichi ddarparu atebion, a rhoi tystiolaeth o'r cymwyseddau a chanlyniadau, i'r cwestiynau a restrir isod. Chi fydd yn penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, dylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i faen prawf. Mae'n arfer cyffredin i ddarparu paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn ysgrifennu mwy na hyn.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol

C1 - Rhowch grynodeb o sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf penodol a nodir ar dudalennau 6 a 7 o'r llyfryn hwn.

C2 - Disgrifiwch eich dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yng Nghymru a sut y byddai'r rhain yn gymwys ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr.

C3 - Rhowch enghraifft neu enghreifftiau penodol o adeg pan oedd rhaid ichi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth i gyfrannu broses o wneud penderfyniadau cadarn.

C4 - Disgrifiwch adeg pan wnaethoch ddwyn person ar lefel uwch i gyfrif gan barhau i gynnal perthynas adeiladol â'r unigolyn hwnnw.

C5 - Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Rhowch enghraifft benodol yn amlinellu eich dull o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ar bob lefel, y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych a'r canlyniad.

C6 - Disgrifiwch enghraifft, neu enghreifftiau, lle'r ydych wedi cynnwys amrywiol dimau, partneriaid neu randdeiliaid i wella gwasanaeth neu broses. Amlinellwch eich cyfraniad personol chi a'r canlyniad.

CV

Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Braslun o'r Amserlen – Aelod Annibynnol

Dyddiad cau:	14 Chwefror 2020, 4pm
Rhestr fer:	w/d 17 Chwefror 2020
Cyfweliadau:	w/d 16 Mawrth 2020
Dyddiad dechrau:	Cyn gynted ag y bo modd

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu y bydd pobl anabl yn cael cyfweliad os byddant yn bodloni isafswm y meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais yn eich galluogi hefyd i roi manylion am unrhyw anghenion sydd gennych neu gyfarpar priodol y gallai fod ei angen arnoch i fynychu cyfweliad.

Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:
Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol
Rhif ffôn: 03000 255454
E-bost: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Aelod Annibynnol, cysylltwch â Mark Polin OBE QPM, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr.
E-bost mark.polin@wales.nhs.uk neu Llinos Roberts, Ysgrifennydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, rhif ffôn: 03000858844
E-bost llinos.roberts3@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, efallai yr hoffech edrych ar eu gwefan: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/hafan

Atodiad A

Penodi Aelod Annibynnol

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i gyfrannu at ein gweledigaeth o sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach.

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd Aelodau Annibynnol, ymhlith pethau eraill, yn:-

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu, o safbwynt clinigol a chorfforaethol. Byddwch yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau, gan gynnig eich barn a herio a chefnogi'r Bwrdd ar faterion allweddol.
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorffennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli beunyddiol;
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw
- Dod, ymhen amser, i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol.
- Gweithio'n agos gyda chyrff preifat, gwirfoddol a chyhoeddus eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu hystyried yn llawn er mwyn helpu i siapio, datblygu a gwella gwasanaethau.
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn;
- Bod â'r gallu i fynegi barn ynghylch llywodraethu ac ariannu'r Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau.

Manyleb y Person

Bydd Aelodau Annibynnol yn dangos y priodoleddau canlynol:-

Gwybodaeth a Phrofiad

- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o faterion iechyd y cyhoedd;
- Y gallu i gyfrannu'n effeithiol ar lefel bwrdd;
- Y gallu i deall y rol, a gwaith y sefydliad, ac i sicrhau bod y bwrdd yn ganolog i'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau;
- Profiad o ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at broses gadarn o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth;

- Y gallu i weithio gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau eraill y Bwrdd i wneud yn siŵr bod y Bwrdd yn arwain y sefydliad mewn modd effeithiol. Lle bo angen, byddwch yn dangos sgiliau a fydd yn eich galluogi i gynnig her briodol a dwyn y gweithredwyr i gyfrif am eu perfformiad, gan gynnal perthynas gadarnhaol yr un pryd;
- Y gallu i fynegi safbwyntiau ynghylch llywodraethiant y sefydliad, gan sicrhau ei fd yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau.

Priodoleddau a Sgiliau Personol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diffinio set o werthoedd craidd cyffredin – *Gweithio gyda'n gilydd, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth*. I'ch helpu i ddangos eich ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn bydd angen ichi ddangos y canlynol:-

- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i ymgysylltu â staff a chynrychiolwyr staff ar bob lefel o fewn y sefydliad
- Gweithredu fel llysgennad ar ran y sefydliad a'i gynrychioli mewn gwahanol ddigwyddiadau a chynadleddau
- Sgiliau gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y priodoleddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer cael eich penodi.

Meini Prawf Penodol i'r Rôl: Aelod Annibynnol - Cymuned

Bydd raid ichi ddangos:

- Gwybodaeth am faterion a blaenoriaethau'r gymuned leol ac empathi â nhw;
- Canolbwyntio ar y dinesydd wrth hyrwyddo diben y Bwrdd o wasanaethu'r cyhoedd
- Profiad sefydliadol a fydd o fudd i ddatblygiad y Bwrdd Iechyd.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain ac nid ydynt yn cynnwys popeth o bell ffordd.

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd/Gweithdy/Datblygu yn fisol fel arfer mewn amrywiol leoliadau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd amryw o bwyllgorau hefyd, sy'n cyfarfod naill ai'n fisol, bob deufis neu'n chwarterol.

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ymrwymiad Amser:	Mae'r rôl wedi'i seilio ar ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, ac mae hynny'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.
Hyd y penodiad:	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn pennu hyd y penodiad, a fydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Er hynny, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Aelod Annibynnol yn parhau'n gymwys drwy gydol y cyfnod hwn. Gall aelodau o'r Bwrdd fod yn eu swyddi am gyfnod o wyth (8) mlynedd ar y mwyaf.
Cydnabyddiaeth ariannol:	Bydd yr Aelod Annibynnol (Cymuned) yn cael tâl o £15,936 y flwyddyn, i'w dalu'n fisol neu'n chwarterol yn ôl-weithredol, yn unol â'r hyn y cytunir arno gyda'r Bwrdd Iechyd. Lle caniateir i Aelod o'r Bwrdd gael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd, ni chaiff unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl yr Aelod Annibynnol. Byddant yn cael eu trin yr un ffordd â chyflogeion eraill sy'n cael amser i ffwrdd gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.
Treuliau:	Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, lle bo hynny'n briodol, yn erbyn derbynebau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Gellir talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill hefyd, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.
Atebolrwydd:	Penodir yr aelodau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r Cadeirydd am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.
Cymorth i Aelodau Anabl:	Lle bo hynny'n briodol, bydd pob addasiad rhesymol yn cael ei wneud, er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Cymhwysedd

Ni fydd person yn gymwys i gael ei benodi os yw:

a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwyr
c. wedi ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd;
d. yn unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol;
e. yn gyflogedig gan un o gyrff y gwasanaeth iechyd.

Yn amodol ar yr eithriad a nodir yn (e), polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai pob un a fu'n gyflogedig gan y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiredolaethau'r GIG dreulio cyfnod o beidio ag ymwneud â gweithgarwch, cyn cael eu hystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus yn y GIG

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio'n benodol ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro Buddiannau yn y ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn hysbys ar ôl eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn y Bwrdd.

Os cânt eu penodi, rhaid i Aelodau Annibynnol ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus weithredu'n unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen hon yn:

http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

Atodiad B

Rôl a Chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau gofal sylfaenol, gofal cymunedol, gofal iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty acíwt ar gyfer poblogaeth o ryw 678,000 o bobl ledled chwe sir y Gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Ym 2018/19 Roedd gan y Bwrdd Iechyd incwm refeniw o £1.54 biliwn ac roedd yn cyflogi tua 18,000 o bobl (15,500 cyfwerth ag amser cyflawn).

Mae gan y Bwrdd Iechyd dri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam), yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydgysylltu gwaith 109 o bractisau meddygon teulu a gwasanaethau GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yn y Gogledd.

Diben

- Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol.

Gweledigaeth

- Gwella iechyd y boblogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.
- Datblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal rhagorol mewn partneriaeth â'r cyhoedd a sefydliadau statudol eraill yn y trydydd sector.
- Datblygu ein gweithlu fel bod ganddo'r sgiliau cywir a'i fod yn gweithredu mewn diwylliant dysgu sy'n gyfoethog o ran ymchwil.

Amcanion Llesiant

- Gwella iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddyliol i bawb;
- Targedu ein hadnoddau at y rhai â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau;
- Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo pobl – unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau – i gyflawni eu llesiant eu hunain;
- Gwella diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau;
- Parchu pobl a'u hurddas;
- Gwrando ar bobl a dysgu o'u profiadau.

Mae amcanion diben, gweledigaeth a llesiant y Bwrdd Iechyd yn amlinellu ei nodau hirdymor. Mae'r rhain wedyn wedi'u trosi'n amcanion penodol ar gyfer gwelliant yn y boblogaeth iechyd a gwasanaethau iechyd sydd wedi'u cynnwys ac sy'n parhau i gael ei gynnwys yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Gwerthoedd

- Rhoi dinasyddion yn gyntaf
- Cydweithio
- Gwerthfawrogi a pharchu ein gilydd
- Dysgu ac arloesi
- Cyfathrebu'n agored ac yn onest.

Mae gwerthoedd y Bwrdd Iechyd yn llywio'r ffordd y mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes a'r ffordd y mae ein staff yn ymgysylltu â'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau a chyda'n gilydd i gyflawni ein nodau strategol.

Mae rôl aelod o'r Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad –** sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol a thîm effeithiol yn eu lle ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sy'n cael eu cadw ar gyfer y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran cyflawni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt, drwy herio a chraffu pwrpasol, a monitro'r adroddiadau am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir a bod rheolaethau ariannol a systemau ar gyfer rheoli a sicrwydd risg yn gadarn ac yn amddiffynadwy
- **Ymddygiad –** gweithredu'n unol â'r safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb, a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r Bwrdd ddangos drwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau i ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu eich cais, hynny yw eich CV a'ch datganiad personol, i benderfynu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a'r cwestiynau y gofynnwyd i chi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Mark Paulin; cynrychiolydd Llywodraeth Cymru Sioned Rees ac Aelod Panel Annibynnol Cllr Sam Rowlands.

Mae'n bosibl y caiff eich cais ei roi ar "restr hir", gan ddibynnu faint o geisiadau fydd wedi dod i law, cyn ei drosglwyddo i'r panel rhestr fer iddynt ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na chaiff eich cais ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod w/d 17 Chwefror pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad, a fydd yn cael ei gynnal yn ystod w/d 16 Mawrth 2020.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd ym manyleb y person. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Byddwch yn cael neges e-bost o'r system Penodi i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau gyda'r Bwrdd Iechyd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf penodedig ar gyfer y rôl.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' ym marn y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Cedwir mewn cysylltiad â'r ymgeiswyr a gafodd eu cyf-weld, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd, a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Mae'n hanfodol mynychu Rhaglen Gynefino'r GIG ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf fydd ar gael.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn hollol fodlon
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru